*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adrannau 28(12) ac 71(4) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Rheoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Fel sy'n ofynnol gan adran 28(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5) ("Deddf 2024"), mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynllun o gymorth ariannol i gynorthwyo ymgeiswyr anabl mewn etholiadau Cymreig i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiadau hynny sy'n gysylltiedig â'u hanabledd. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i etholiadau Cymreig, sef etholiad ar gyfer aelodaeth o Senedd Cymru neu gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru.

Ymgeisydd at ddibenion y Rheoliadau hyn yw person sy'n bwriadu dod yn ymgeisydd neu sy'n ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys. Caiff ymgeisydd o'r fath wneud cais am gymorth ariannol ar unrhyw adeg, ond ni thelir unrhyw gymorth ariannol tan ar ôl i ymgeisydd gael ei enwebu'n ddilys. Hefyd, ni fydd cymorth ariannol ond ar gael i dalu costau ychwanegol yr eir iddynt mewn cysylltiad ag anabledd ymgeisydd am gymorth neu addasiadau a ddefnyddir ar ôl iddo gael ei enwebu'n ddilys. Mae ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys mewn etholiad pan fydd y swyddog canlyniadau'n derbyn ei enwebiad yn yr etholiad hwnnw.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer penodi gweithredwr cynllun, a chaiff hynny fod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau. Mae'r ddarpariaeth yn nodi gofynion ar gyfer y penodiad. Mae rheoliad 5 yn rhoi swyddogaethau i weithredwr y

cynllun, a chaniateir dirprwyo'r swyddogaethau hynny i bersonau penodedig fel y nodir yn rheoliadau 6 a 7. Rhaid i weithredwr y cynllun lunio a chyhoeddi canllawiau ynghylch gweithredu'r cynllun fel y nodir yn rheoliad 8.

Mae rheoliad 9 yn nodi'r cymorth ariannol y mae rhaid i'r cynllun ei ddarparu, gan gynnwys costau cymorth neu addasiadau yr eir iddynt yn rhesymol sy'n ofynnol i alluogi ymgeisydd anabl i ymgyrchu ar sail gyfartal ag ymgeisydd nad yw'n anabl, yn ystod y cyfnod penodedig. Mae'r cyfnod penodedig hwnnw yn dechrau ar y dyddiad yr enwebir ymgeisydd yn ddilys mewn etholiad Cymreig ac yn dod i ben ar y diwrnod y cyhoeddir canlyniadau'r etholiad hwnnw.

Mae rheoliad 10 yn darparu amodau y mae rhaid i weithredwr y cynllun eu cynnwys fel rhan o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynllun.

Mae rheoliad 11 yn amlinellu'r prosesau gwneud cais ac asesu ar gyfer y cynllun cymorth ariannol, y mae rhaid manylu arnynt yn y canllawiau a gyhoeddir gan weithredwr y cynllun o dan reoliad 8.

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y cynllun gymryd camau rhesymol i sicrhau y gwneir trefniadau i dalu i'r ymgeisydd y cymorth ariannol sydd wedi ei gymeradwyo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Caniateir darparu cymorth ariannol drwy daliadau uniongyrchol i ffynhonnell y cymorth gofynnol neu'r addasiadau gofynnol, neu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd. Pan wneir taliadau'n uniongyrchol i'r ymgeisydd, efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd fodloni amodau penodedig cyn i'r taliad gael ei wneud.

Mae rheoliad 13 yn amlinellu'r amgylchiadau a'r broses pan fydd gweithredwr y cynllun yn gofyn am ad-dalu taliad cymorth ariannol.

Mae rheoliad 14 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw cofnodion a chyfrifon gan weithredwr y cynllun, y caniateir i Weinidogion Cymru eu harolygu. Rhaid i weithredwr y cynllun hefyd gyhoeddi adroddiad ar weithrediad y cynllun cymorth ariannol, fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 15, heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl etholiad. Rhaid i unrhyw wybodaeth a ddarperir i Weinidogion Cymru, neu a gynhwysir mewn adroddiad gan weithredwr y cynllun, fod yn ddienw ac ni chaiff gynnwys manylion y gellir adnabod ymgeisydd oddi wrthynt.

Mae rheoliadau 16 i 17 yn manylu ar y diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol i ddeddfwriaeth arall er mwyn rhoi effaith lawn i'r cynllun cymorth ariannol drwy sicrhau nad yw unrhyw dreuliau yr eir iddynt gan ymgeisydd, sy'n cael eu talu neu eu had-dalu o dan y cynllun cymorth ariannol a sefydlir yn unol â'r Rheoliadau hyn, yn cyfrif tuag at gyfyngiadau ar

wariant etholiadol yr ymgeisydd mewn etholiadau Cymreig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adrannau 28(12) ac 71(4) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *21 Gorffennaf 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 28(2), (3), (5), (6), (8) a (10) ac 71(1) a (2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 28(4) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adrannau 28(12) ac 71(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 2024 dsc 5. Mae adran 28(13) yn diffinio "penodedig" ac "a bennir" i olygu wedi ei bennu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 28.

# RHAN 1

## CYFFREDINOL

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Gorffennaf 2025.

(3) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i etholiadau Cymreig.

(4) Er bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym o dan baragraff (2), nid ydynt yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad Cymreig y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar neu cyn 6 Mai 2026.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “anabl” (“*disabled*”) yr un ystyr ag yn adran 28(13) o Ddeddf 2024;

mae i “cymorth ariannol” (“*financial assistance*”) yr un ystyr ag yn adran 31 o Ddeddf 2024;

ystyr “Deddf 2024” (“*the 2024 Act*”) yw Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024;

ystyr “etholiad Cymreig” (“*Welsh election*”) yw etholiad ar gyfer dychwelyd aelod o—

(a) Senedd Cymru;

(b) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(c) cyngor cymuned yng Nghymru;

ystyr “Gorchymyn 2025” (“*the 2025 Order*”) yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025(**1**);

ystyr “plaid wleidyddol gofrestredig” (“*registered political party*”) yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**2**);

ystyr “ymgeisydd” (“*candidate*”) yw—

(a) mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru, person—

(i) sy’n bwriadu sefyll fel ymgeisydd unigol, neu sydd wedi ei enwebu’n ddilys fel ymgeisydd unigol, yn yr etholiad hwnnw, neu

---

(**1**) O.S. 2025/XX (Cy. XX).
(**2**) 2000 p. 41.

(ii) sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd rhestr plaid, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd rhestr plaid, yn yr etholiad hwnnw;

(b) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, person sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd, yn yr etholiad hwnnw;

(c) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor cymuned yng Nghymru, person sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd, yn yr etholiad hwnnw;

ystyr "ymgeisydd rhestr plaid" ("*party list candidate*") yw ymgeisydd mewn etholiad Senedd Cymru sydd wedi ei gynnwys ar restr o ymgeiswyr a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig;

ystyr "ymgeisydd unigol" ("*individual candidate*") yw ymgeisydd mewn etholiad Senedd Cymru heblaw ymgeisydd rhestr plaid.

(2) Mae person wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd mewn etholiad Cymreig—

(a) mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru, os yw ei enwebiad—

(i) fel ymgeisydd unigol yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 14 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;

(ii) fel ymgeisydd rhestr plaid yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 15 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;

(b) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os yw ei enwebiad fel ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 10 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021(**1**), neu reol 10 o Atodlen 2 iddynt;

(c) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor cymuned, os yw ei enwebiad fel ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 10 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau)

(**1**) O.S. 2021/1459 (Cy. 374). Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan reoliadau 1(2), 2(2) a (3), a 12(a) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

(Cymru) 2021(**1**), neu reol 10 o Atodlen 2 iddynt.

# RHAN 2

## SEFYDLU A GWEITHREDU'R CYNLLUN

**Sefydlu'r cynllun**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu cynllun ar gyfer rhoi cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl o dan adran 28(2) o Ddeddf 2024, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y cynllun cymorth ariannol".

(2) Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y cynllun cymorth ariannol.

**Gweithredwr y cynllun**

**4.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person i weithredu'r cynllun cymorth ariannol, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gweithredwr y cynllun".

(2) Rhaid i weithredwr y cynllun fod ag—

(a) dealltwriaeth neu brofiad o amrywiaeth eang o anableddau;

(b) dealltwriaeth neu brofiad o'r effaith y mae anableddau yn ei chael ar rôl ymgeisydd sy'n sefyll i gael ei ethol yng Nghymru;

(c) dealltwriaeth o broses etholiadau Cymreig;

(d) prosesau gweinyddol ac ariannol ar waith i weithredu'r cynllun cymorth ariannol.

(3) Ni chaiff gweithredwr y cynllun fod yn berson a eithrir.

(4) Caniateir i benodiad o dan baragraff (1) gael ei wneud yn ddarostyngedig i delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(5) Caiff telerau ac amodau o dan baragraff (4) gynnwys trefniadau ar gyfer taliadau gan Weinidogion Cymru i weithredwr y cynllun at ddiben ariannu—

(a) unrhyw gymorth ariannol a delir o dan y cynllun cymorth ariannol, a

(b) costau gweithredu'r cynllun cymorth ariannol.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae i "person a eithrir" yr un ystyr ag yn adran 29 o Ddeddf 2024.

---

(**1**) O.S. 2021/1460 (Cy. 375). Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan reoliadau 1(2), 2(5) a (6), a 12(a) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

### Swyddogaethau gweithredwr y cynllun

**5.**—(1) Rhaid i weithredwr y cynllun weithredu'r cynllun cymorth ariannol yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i weithredwr y cynllun—

(a) sefydlu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynllun cymorth ariannol yn unol â rheoliad 10;

(b) darparu gwasanaeth i—

(i) cynghori ymgeiswyr sy'n holi ynghylch cwmpas a pharamedrau'r cynllun cymorth ariannol, a

(ii) cynorthwyo ymgeiswyr gyda'r broses o wneud cais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol;

(c) penderfynu a yw ceisiadau sydd wedi dod i law yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a sefydlwyd yn is-baragraff (a);

(d) dyrannu'r cymorth ariannol y mae ymgeisydd yn gymwys i'w gael neu y gallai fod yn gymwys i'w gael;

(e) gwneud trefniadau ar gyfer talu a dosbarthu'r cymorth ariannol a gymeradwyir;

(f) sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu rhag unrhyw geisiadau twyllodrus a pheri na wneir unrhyw daliadau anghywir o'r cynllun cymorth ariannol;

(g) cymryd camau rhesymol i hyrwyddo'r cynllun a sut y gellir manteisio arno, ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun cymorth ariannol a sut y gellir manteisio arno.

### Dirprwyo swyddogaethau a roddir i weithredwr y cynllun

**6.** Yn ddarostyngedig i reoliad 7(3), caiff gweithredwr y cynllun awdurdodi'r personau a restrir ym mharagraffau (a) a (b) i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y cynllun cymorth ariannol—

(a) aelod o staff;

(b) pan mai corff yw gweithredwr y cynllun, aelodau o'r corff neu bwyllgor i'r corff.

**7.**—(1) Caiff gweithredwr y cynllun sefydlu panel, y cyfeirir ato fel "panel gwneud penderfyniadau", i arfer swyddogaethau gweithredwr y cynllun a restrir yn rheoliad 5(2)(c) i (e).

(2) Rhaid i aelodau a benodir i'r panel gwneud penderfyniadau—

(a) cael eu penodi drwy broses gwneud cais a benderfynir gan weithredwr y cynllun, a

(b) bodloni’r meini prawf a nodir yn rheoliad 4(2)(a) a (b) a (3).

(3) Pan fo gweithredwr y cynllun yn sefydlu panel gwneud penderfyniadau o dan baragraff (1), ni chaiff ddirprwyo’r swyddogaethau hynny i bersonau a restrir o dan reoliad 6.

**Canllawiau**

**8.**—(1) Rhaid i weithredwr y cynllun hefyd ddarparu canllawiau ynghylch gweithredu’r cynllun cymorth ariannol.

(2) Rhaid i’r canllawiau bennu’r wybodaeth a ganlyn—

(a) y meini prawf cymhwystra ar gyfer cais llwyddiannus am gymorth ariannol;

(b) y mathau o gymorth neu addasiadau, sy’n arwain at gostau ychwanegol i ymgeiswyr anabl, y caniateir cymeradwyo cymorth ariannol o’r cynllun cymorth ariannol ar eu cyfer;

(c) manylion ynghylch y broses gwneud cais ar gyfer y cynllun cymorth ariannol, gan gynnwys unrhyw ffurflen gais ac unrhyw amserlenni ar gyfer cyflwyno ceisiadau;

(d) manylion ynghylch y prosesau gwneud penderfyniadau a dyrannu, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer penderfynu ceisiadau a thalu a dosbarthu unrhyw gymorth ariannol a gymeradwyir;

(e) manylion ynghylch unrhyw broses gwyno neu adolygu mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir mewn ymateb i geisiadau.

(3) Caiff y canllawiau gynnwys gwybodaeth arall sy’n cynorthwyo gweithredwr y cynllun i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â gweithredu’r cynllun cymorth ariannol.

(4) Rhaid i weithredwr y cynllun—

(a) cyhoeddi’r canllawiau ar ei wefan, a

(b) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y canllawiau yn hygyrch i ddefnyddwyr.

## RHAN 3

## CYNLLUN YMGEISWYR ANABL

**Y cynllun**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), rhaid i’r cynllun cymorth ariannol ddarparu cymorth

ariannol tuag at gostau ychwanegol yr eir iddynt yn rhesymol gan ymgeisydd i gael cymorth neu addasiadau i oresgyn rhwystrau sy’n ymwneud â’i anabledd ac sy’n effeithio arno o ran cymryd rhan mewn etholiad Cymreig.

(2) Rhaid i unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt gan ymgeisydd o dan baragraff (1) fod yn gysylltiedig ag anabledd yr ymgeisydd.

(3) Ni chaniateir talu cymorth ariannol a ddarperir o dan y cynllun ond mewn cysylltiad â chostau ychwanegol yr eir iddynt yn rhesymol am gymorth neu addasiadau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod penodedig.

(4) Ni chaiff cymorth ariannol a ddarperir o dan y cynllun cymorth ariannol roi mantais i’r ymgeisydd wrth geisio swydd etholedig.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “cyfnod penodedig” yw o’r dyddiad y caiff ymgeisydd mewn etholiad Cymreig ei enwebu’n ddilys fel ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw hyd at y diwrnod y cyhoeddir canlyniadau’r etholiad hwnnw.

**Meini prawf cymhwystra ar gyfer cais llwyddiannus**

**10.**—(1) Rhaid i’r meini prawf cymhwystra sy’n ofynnol gan reoliad 5(2)(a) gynnwys yr amodau a ganlyn—

(a) i wneud cais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol, rhaid i ymgeisydd fod yn gymwys i fod yn ymgeisydd mewn etholiad Cymreig;

(b) i gael cymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol, rhaid i ymgeisydd fod wedi ei enwebu’n ddilys fel ymgeisydd mewn etholiad Cymreig;

(c) rhaid i ymgeisydd fodloni’r diffiniad o anabl a rhaid i unrhyw amhariad fod yn bresennol—

(i) pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol, a

(ii) yn ystod y cyfnod pan fydd ymgeisydd yn cael unrhyw gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol.

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), mae ymgeisydd yn gymwys i fod yn ymgeisydd mewn etholiad Cymreig os—

(a) mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru, nad yw wedi ei anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o’r Senedd o dan

adran 16(A1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**);

(b) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned—

(i) yw ymgeisydd yn gymwys i gael ei ethol yn gynghorydd yn unol ag adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**), a

(ii) nad yw ymgeisydd wedi ei anghymhwyso rhag cael ei ethol yn gynghorydd—

(aa) gan unrhyw reswm a nodir yn adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**),

(bb) oherwydd unrhyw benderfyniad sydd wedi ei wneud o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**4**), neu

(cc) am ddal swydd sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol fel y nodir yn adran 1(1) ac (1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**5**).

**Y broses gwneud cais ac asesu**

**11.**—(1) Rhaid i gais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol—

(a) cael ei wneud ar y ffurf honno,

(b) cael ei gyflwyno yn y modd hwnnw, ac

(c) cynnwys yr wybodaeth honno,

a bennir gan weithredwr y cynllun.

(2) Rhaid i gais gael ei wneud o fewn unrhyw amserlenni a bennir gan weithredwr y cynllun.

---

(**1**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 16(A1) gan adran 29(2) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**2**) 1972 p. 70. Mae adran 79 wedi ei diwygio gan adrannau 231, 235 a 237 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40) ac Atodlen 13 iddi; paragraff 5(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); adran 17(4) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) a pharagraff 43 o Atodlen 1 iddi; adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1); ac O.S. 1995/1948. Mae diwygiadau eraill wedi eu gwneud i adran 79 nad ydynt yn berthnasol yma.

(**3**) Mewnosodwyd adran 80A gan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac fe'i diwygiwyd gan adran 62 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**4**) 2000 p. 22. Mae adran 79 wedi ei diwygio gan adran 199 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); Rhan 5 o Atodlen 25 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20); ac O.S. 2022/372.

(**5**) 1989 p. 42. Mewnosodwyd is-adran (1A) gan baragraff 6 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan O.S. 2021/1349 (Cy. 348).

(3) Rhaid i ymgeisydd ddarparu unrhyw ddogfennau eraill neu unrhyw wybodaeth arall y mae gweithredwr y cynllun yn gofyn amdanynt neu amdani pan ddaw'r cais i law neu ar ôl hynny.

(4) Rhaid i weithredwr y cynllun, o fewn yr amserlenni penodedig—

(a) gwrthod cais neu wrthod cymeradwyo cais, neu

(b) cymeradwyo cais yn llawn neu'n rhannol, yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i'r amodau hynny a benderfynir ganddo, ac

(c) hysbysu'r ymgeisydd am ei benderfyniad.

(5) Rhaid i'r holl geisiadau gael eu hystyried a'u penderfynu ar sail ddienw.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "a bennir" a "penodedig" yw wedi ei bennu mewn canllawiau a gyhoeddir gan weithredwr y cynllun yn unol â rheoliad 8.

**Talu cymorth ariannol**

**12.**—(1) Pan wneir cais o dan y cynllun cymorth ariannol cyn i ymgeisydd ("Y") gael ei enwebu'n ddilys mewn etholiad Cymreig, rhaid i weithredwr y cynllun gymryd unrhyw gamau sy'n ymarferol i wneud trefniadau i sicrhau bod unrhyw gymorth ariannol a gymeradwyir yn cael ei dalu i Y cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad y caiff Y ei enwebu'n ddilys.

(2) Ym mhob achos arall, rhaid i weithredwr y cynllun gymryd unrhyw gamau sy'n ymarferol i sicrhau—

(a) bod cais Y yn cael ei benderfynu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i law, a

(b) bod unrhyw gymorth ariannol a gymeradwyir yn cael ei dalu i Y cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i gais Y gael ei gymeradwyo gan weithredwr y cynllun.

(3) Caiff gweithredwr y cynllun dalu'r cymorth ariannol a gymeradwyir—

(a) fel taliad uniongyrchol i gyflenwr y cymorth a gymeradwyir neu'r addasiadau a gymeradwyir, neu

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (4), fel taliad uniongyrchol i Y y mae rhaid iddo wneud ei drefniadau ei hun i gael y cymorth a gymeradwyir neu'r addasiadau a gymeradwyir.

(4) Ni chaiff gweithredwr y cynllun dalu'r cymorth ariannol a gymeradwyir i Y o dan baragraff (3)(b) oni bai ei fod wedi ei fodloni—

(a) bod Y wedi mynd i'r gost, neu y bydd Y yn mynd i'r gost, yn briodol am y cymorth a gymeradwyir;

(b) bod Y wedi cydymffurfio, neu y bydd Y yn cydymffurfio, ag un neu ragor o amodau'r cymorth ariannol a gymeradwyir.

(5) At ddibenion paragraffau (1) a (2), caiff gweithredwr y cynllun ei gwneud yn ofynnol i Y ddarparu gwybodaeth sy'n dangos tystiolaeth o wariant neu unrhyw gamau angenrheidiol sy'n ymwneud â'r cymorth ariannol a gymeradwyir.

**Hysbysiad o adennill taliad**

**13.**—(1) Caiff gweithredwr y cynllun roi hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol ad-dalu unrhyw ran o unrhyw gymorth ariannol a dalwyd i ymgeisydd o dan y cynllun cymorth ariannol.

(2) Cyn rhoi hysbysiad o dan baragraff (1), rhaid i weithredwr y cynllun fod wedi ei fodloni—

(a) bod y cais a gymeradwywyd y gwnaed y taliad mewn cysylltiad ag ef, neu unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd gan ymgeisydd mewn perthynas ag ef, wedi cynnwys gwybodaeth a oedd yn anghywir neu'n gamarweiniol,

(b) bod unrhyw gymorth ariannol a dalwyd wedi cael ei ddefnyddio at ddiben heblaw'r diben y cafodd ei dalu ar ei gyfer, neu

(c) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r amodau y cymeradwywyd y cais yn ddarostyngedig iddynt, neu y talwyd y cymorth ariannol yn ddarostyngedig iddynt, neu na ellir cydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ad-dalu'r swm a bennir yn yr hysbysiad o fewn cyfnod a bennir felly, nad yw'n llai nag 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

(4) Pan na chaiff unrhyw ran o'r swm a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff (1) ei had-dalu o fewn cyfnod a bennir felly, caiff gweithredwr y cynllun adennill y swm sydd heb ei ad-dalu yn ddiannod fel dyled sifil.

## RHAN 4

## COFNODION A GOFYNION ADRODD

**Cofnodion a chyfrifon**

**14.**—(1) Rhaid i weithredwr y cynllun gadw cofnod a chyfrif cyfredol o'r canlynol—

(a) crynodeb o’r defnydd o’r cynllun cymorth ariannol gan gynnwys—

  (i) nifer y ceisiadau a ddaeth i law;

  (ii) y math o gymorth neu addasiadau y gofynnwyd amdano neu amdanynt gan yr ymgeiswyr;

  (iii) canlyniad y ceisiadau a aseswyd, gan gynnwys y cymorth neu’r addasiadau a’r costau a gymeradwywyd;

  (iv) nifer y ceisiadau a dynnwyd yn ôl a’r rhesymau dros eu tynnu’n ôl;

(b) yr holl daliadau cymorth ariannol a wnaed, a pha un a wnaed y taliadau hynny yn uniongyrchol i ymgeisydd neu’n uniongyrchol i gyflenwyr y cymorth neu’r addasiadau ar gyfer yr ymgeisydd;

(c) asesiad o gost gweithredu’r cynllun.

(2) Rhaid i weithredwr y cynllun drefnu bod y cofnodion a’r cyfrifon y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ar gael i’w hadolygu yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

(3) O ran unrhyw gofnodion ac unrhyw gyfrifon a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan baragraff (2)—

(a) rhaid iddynt fod mewn fformat dienw, a

(b) ni chânt gynnwys gwybodaeth y gellir adnabod ymgeisydd oddi wrthi fel derbynnydd y cymorth ariannol a gymeradwyir.

(4) Rhaid i weithredwr y cynllun gadw’r cofnodion a’r cyfrifon y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) am 2 flynedd ar ôl diwrnod y pôl mewn etholiad Cymreig ac yna, oni chyfarwyddir fel arall drwy orchymyn gan yr Uchel Lys, Llys y Goron neu lys ynadon, rhaid iddo beri iddynt gael eu dinistrio.

**Adroddiadau**

**15.**—(1) Heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl diwrnod y pôl mewn etholiad Cymreig, rhaid i weithredwr y cynllun gyhoeddi adroddiad.

(2) Rhaid i’r adroddiad gynnwys manylion ynghylch—

(a) sawl tro y cysylltwyd â gweithredwr y cynllun am gymorth ariannol;

(b) nifer y ceisiadau a ddaeth i law, a gymeradwywyd ac a wrthodwyd;

(c) natur anableddau’r ymgeiswyr ynghyd â manylion ynghylch y cymorth sydd ei angen y gofynnwyd am gymorth ariannol ar ei gyfer;

(d) amgylchiadau pan gymeradwywyd cymorth ariannol ond nas talwyd o fewn amserlen a

oedd yn galluogi'r ymgeisydd i gael ei gynorthwyo, a'r rhesymau dros hynny;

(e) swm y cymorth ariannol a ddarparwyd gan gynnwys dadansoddiad o'r taliadau a wnaed;

(f) yr achlysuron pan ddarparwyd hysbysiad gan weithredwr y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol ad-dalu unrhyw ran o gymorth ariannol a dalwyd i berson o dan y cynllun cymorth ariannol;

(g) adborth gan ymgeiswyr am eu profiad o ddefnyddio'r cynllun cymorth ariannol.

(3) O ran yr adroddiad a gyhoeddir o dan baragraff (1)—

(a) rhaid iddo fod mewn fformat dienw;

(b) ni chaiff gynnwys gwybodaeth y gellir adnabod ymgeisydd oddi wrthi fel derbynnydd y cymorth ariannol a gymeradwyir;

(c) ni chaiff dorri deddfwriaeth diogelu data (o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018(**1**)).

# RHAN 5

## DIWYGIADAU CANLYNIADOL

### Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

**16.**—(1) Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol), ar ôl paragraff 7A mewnosoder—

> "**7B.** In respect of a local government election in Wales, a matter in respect of which expenses are paid or reimbursed in accordance with the financial assistance scheme established by the Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025 (S.I. 2025/ (W. )) (to the extent that the matter does not fall within paragraph 7A)."

### Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

**17.**—(1) Mae Gorchymyn 2025 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2018 p. 12.

(**2**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 27(5) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22). Gweler Atodlen 2 i O.S. 2006/1972 am ddarpariaethau trosiannol. Amnewidiwyd paragraff 7A o Atodlen 4A gan erthygl 2 o O.S. 2019/352 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan erthygl 5 o O.S. 2020/1320 (Cy. 291).

(2) Yn Atodlen 7 (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol), ar ôl paragraff 19 mewnosoder—

> "**19A.** Mater y mae treuliau yn cael eu talu neu eu had-dalu mewn cysylltiad ag ef yn unol â'r cynllun cymorth ariannol a sefydlir gan Reoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025 (O.S. 2025/ (Cy. )) (i'r graddau nad yw'r mater yn dod o fewn paragraff 17)."

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad